



Tasg 2

Sut ydych chi'n teimlo?

1. Pwy sy'n teimlo'n dda iawn? Pwy sy ddim yn teimlo'n dda iawn?

a. Ysgrifennwch yr enwau yn y grid: George, Jon, Alice, Chloe, Alex, Ahmed, Sheima.

| Teimlo'n dda iawn | Ddim yn teimlo'n dda iawn |
|-------------------|---------------------------|
| | |

b. Ydych chi'n cofio?

Pam maen nhw'n teimlo'n dda iawn?

Pam dydyn nhw ddim yn teimlo'n dda iawn?

Ysgrifennwch isod ac yna cymharwch eich syniadau.

Mae ... yn teimlo'n dda achos ...

Dydy ... ddim yn teimlo'n dda iawn achos ...

| Geirfa | |
|---------|------------|
| isod | below |
| cymharu | to compare |

2. Mae'r geiriau yma'n disgrifio sut rydych chi'n teimlo.

| | | | |
|--|--|---|--|
| trist hapus ofnus wrth fy modd da iawn diolch sâl nerfus | | cyffrous siomedig blin / crac / dig swil diflas anhapus balch | |
|--|--|---|--|

a. Ysgrifennwch y geiriau Saesneg yn y grid. Edrychwch mewn geiriadur os ydych chi eisiau.

b. Sut ydych chi'n teimlo heddiw?

Ysgrifennwch ateb i'r cwestiwn yma ond rhowch reswm hefyd, e.e.



Dw i'n teimlo'n gyffrous achos dw i'n chwarae mewn gêm bêl-droed heno.

Dw i'n teimlo'n drist achos dw i wedi cael llawer o waith cartref.

c. Eisteddwch mewn cylch i siarad am sut rydych chi'n teimlo.

Cofiwch ofyn cwestiynau i bawb yn y grŵp os yn bosib.

Pam wyt ti'n ...?
Achos ...

Ble wyt ti'n ...?
Yn ...

Pryd?

Gyda pwy?

| Geirfa | |
|-----------|------------|
| geiriadur | dictionary |
| cylch | circle |

